# Newyddiadurwr Digidol S4C

## Cyflwyniad

Mae Newyddion S4C yn wasanaeth newyddion digidol sydd yn dod a'r newyddion diweddaraf i gynulleidfa Gymraeg .Y nod yw cyrraedd a gwasanaethu cynulleidfa ehangach na'r rhai sy'n gwylio newyddion ar deledu, a hynny ar ffurf fideo a thestun, pryd bynnag a lle bynnag maen nhw eisiau.

Dyma gyfle unigryw i fod yn rhan o wasanaeth fydd yn siapio hinsawdd newyddiadurol Cymru i'r dyfodol.

Gyda diddordeb brwd mewn newyddion Cymreig a'r cyfryngau digidol bydd gennych syniadau creadigol a dyfeisgar am sut i ddatblygu' gwasanaeth digidol a denu dilyniant.

Bydd gennych drwyn am stori a'r gallu i fod yn greadigol gyda'r cynnwys gan gynhyrchu cynnwys o safon sy'n dal y llygad ac yn creu sŵn.

Gyda sgiliau ieithyddol da byddwch yn ysgrifennu yn gywir ac yn ystwyth a bydd gennych y ddawn i gynnal tôn ac arddull priodol ar gyfer y gwasanaeth.

Byddwch yn arddel gwerthoedd cynhwysol a byddwch yn frwd dros sicrhau bod amrywiaeth o bob math yn cael ei adlewyrchu gan y gwasanaeth.

## Disgrifiad Swydd

Gan weithio gyda, ac o dan gyfarwyddyd Uwch Olygydd Newyddion Digidol S4C bydd y Newyddiadurwr Digidol yn cyflawni'r dyletswyddau canlynol:

- Pecynnu cynnwys newyddion ar gyfer Facebook, Twitter, Instagram ac Youtube
- Ysgrifennu penawdau bachog ar gyfer y wefan a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol sy'n denu sylw cynulleidfa
- Creu cynnwys digidol unigryw fydd yn adrodd straeon a phrofiadau unigolion
- Pecynnu straeon ac uchafbwyntiau chwaraeon
- Pecynnu cynnwys newyddion ar gyfer dysgwyr
- Rheoli ffrydiau byw ar y cyfryngau cymdeithasol
- Cynnal partneriaethau gyda chyflenwyr straeon
- Gweithio gydag adrannau eraill yn S4C i sicrhau llwyddiant y cynnwys
- Ymateb i ddata defnyddwyr er mwyn gwerthuso llwyddiant y cynnwys sy'n cael ei gyhoeddi
- Datblygu dealltwriaeth gref o gynulleidfaoedd S4C
- Adnabod ac adeiladu perthynas gyda dylanwadwyr ar-lein
- Unrhyw waith rhesymol arall.

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

## Manyleb Person

| Nodwedd | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Profiad** | Profiad o gynhyrchu cynnwys digidol. | Profiad o weithio yn y maes newyddion. |
| **Sgiliau a Gwybodaeth** | Diddordeb a dealltwriaeth o gyfryngau digidol.<br><br>Diddordeb a dealltwriaeth o newyddion Cymreig a byd eang.<br><br>Y gallu i gyfathrebu yn glir ag amrywiaeth o gynulleidfaoedd trwy rwydweithiau cymdeithasol.<br><br>Ymwybyddiaeth o feddalwedd golygu fideo.<br><br>Y gallu i gyfathrebu yn rhugl yn y Gymraeg a Saesneg i safon dda gyda staff ac eraill ar bob lefel, yn ysgrifenedig ac ar lafar.<br><br>Dealltwriaeth ymarferol o gyfryngau cymdeithasol a llwyfannau digidol (e.e. YouTube, Facebook, Twitter, Instagram Tik Tok). | Y gallu i gyfathrebu yn glir ag amrywiaeth o gynulleidfaoedd trwy rwydweithiau cymdeithasol.<br><br>Y gallu i ddefnyddio pecynnau meddalwedd golygu fideo ar unrhyw lefel e.e. Adobe Premiere, Avid, ShotCut.<br><br>Profiad o ddefnyddio Mac. |
| **Nodweddion Personol** | Trefnus.<br><br>Creadigol.<br><br>Y gallu i weithio o fewn amserlenni tynn.<br><br>Medru gweithio'n annibynnol.<br><br>Yn fodlon gweithio y tu hwnt i oriau swyddfa arferol yn gyson. | |

## Manylion eraill

**Lleoliad:** Canolfan S4C Yr Egin. Mae S4C yn gweithredu polisi gweithio'n hybrid. Mae gan S4C swyddfeydd yng Nghaerfyrddin, Caerdydd a Caernarfon.

**Cyflog:** Yn unol â phrofiad

**Cytundeb:** Parhaol

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

| | |
|---|---|
| **Oriau gwaith:** | Bydd eich oriau gwaith arferol yn ôl patrwm sifft weithredol, sef cyfanswm o 35¾ awr yr wythnos. Eich rôl yw cynnal gwasanaeth 7 diwrnod yr wythnos. O ganlyniad bydd eich patrwm sifft ar draws 7 diwrnod, ac yn unol â gofynion y gwasanaeth |
| **Cyfnod prawf:** | 6 mis |
| **Gwyliau:** | Yn ychwanegol i'r gwyliau banc statudol, bydd gennych hawl i 26 diwrnod o wyliau gyda thâl y flwyddyn. |
| **Pensiwn:** | Mae hawl gan staff cyflogedig ymuno â Chynllun Pensiwn Personol Grŵp yn ddarostyngedig i delerau unrhyw gynllun sydd mewn bodolaeth ac a ddiwygiwyd o dro i dro. Os byddwch yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Personol Grŵp, bydd S4C yn cyfrannu 10% o'ch cyflog sylfaenol i'r Cynllun. Disgwylir i chi gyfrannu 5%. |

## Ceisiadau

Dylid anfon ceisiadau erbyn 17.00 ar ddydd Llun 6 Chwefror 2023 at adnoddau.dynol@s4c.cymru neu Adnoddau Dynol, Canolfan S4C, Yr Egin, Caerfyrddin, SA31 3EQ.

Nid ydym yn derbyn CV.

Gellir cyflwyno ceisiadau yn y Gymraeg. Ni fydd unrhyw gais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn y Saesneg.

## Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth

Nid yw S4C yn caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu economaidd-gymdeithasol, oedran, amgylchiadau teuluol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, gweithwyr amser llawn neu ran-amser, crefydd, safbwynt gwleidyddol, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, defnydd ar iaith (heblaw lle bo'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn hanfodol i'r swydd) neu wahaniaeth amherthnasol arall ac mae'n ymroi i weithio gydag amrywiaeth mewn ffordd gadarnhaol.

Mae S4C yn croesawu ac yn annog ceisiadau gan grwpiau o bobl sydd wedi'u tangynrychioli, gan gynnwys grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau. Bydd egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored yn berthnasol a phenodir ar sail teilyngdod.

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR